Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Yr Ysgol Ltd

Yr Ysgol
Heol Giedd
Ystradgynlais
Powys
SA9 1LQ

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

24 Mawrth 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.
Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn ag Yr Ysgol Ltd

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion â gofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Yr Ysgol Limited
Lleoedd cofrestredig	16
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Cliciwch yma i ychwanegu testun.23 Ionawr 2020
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'.

Crynodeb

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi'n dda iawn ac yn derbyn gofal gan dîm gofal profiadol ac ymroddedig sydd wedi'u hyfforddi'n dda a thîm rheoli cefnogol. Roedd yr holl adborth a gasglwyd fel rhan o'r arolygiad yn gadarnhaol iawn am ddiwylliant y gwasanaeth a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus. Roedd perthnasau hefyd yn ganmoliaethus iawn ac yn gadarnhaol ynghylch y gwasanaeth a ddarperir. Mae prosesau da ar waith i helpu i gynyddu ymgysylltiad y bobl â chynllunio eu cymorth. Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ac mae'r rheolwr cofrestredig, y dirprwy reolwr a'r unigolyn cyfrifol i'w gweld yn y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd o safon eithriadol o uchel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, yn lân, ac wedi'i ddarparu yn unol â'r amcanion y manylir arnynt yn y datganiad o ddiben. Cwblheir gwiriadau diogelwch ac amserlenni gwasanaeth yn unol â chanllawiau a gofynion cyfredol. Mae mesurau rheoli heintiau a COVID-19 cadarn ar waith. Mae gwiriadau recriwtio cadarn ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn cael cyfnod sefydlu a hyfforddiant trylwyr i gyflawni eu rolau'n gymwys. Darperir y gwasanaeth yn unol â chanlyniadau a dyheadau'r bobl.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gydag urddas a pharch. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a chefnogol iawn rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl trwy gydol yr arolygiad. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gynnal a datblygu sgiliau. Gwelsom fod y bobl wedi ymlacio ac i bob golwg yn mwynhau byw yn y gwasanaeth. Gwnaethom siarad â phobl a pherthnasau a oedd i gyd yn gadarnhaol ac yn canmol y gwasanaeth a ddarperir yn fawr. Gwelsom hefyd y bobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad at weithgareddau allanol. Mae'r gwasanaeth wedi profi heriau staffio a briodolir i COVID-19, sydd wedi golygu lefelau staffio is nag arfer ar adegau. Mae'r rheolwyr a'r unigolyn cyfrifol yn hyderus bod hyn yn gwella ac mae recriwtio'n barhaus. Mae'r gweithwyr gofal, y nyrsys a'r rheolwyr yn cael ystod eang o hyfforddiant craidd ac arbenigol i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion a bodloni canlyniadau'r bobl yn llawn.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn bresennol yn y gwasanaeth ac yn ymweld yn rheolaidd. Ceir goruchwyliaeth dda o ansawdd y ddarpariaeth gofal gan y rheolwyr a'r unigolyn cyfrifol. Dywedodd y gweithwyr gofal, y bobl a pherthnasau wrthym fod y cyfathrebu â'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn dda a bod y materion yr adroddir arnynt yn cael eu gweithredu'n brydlon ac yn briodol. Mae'r cynlluniau personol yn glir, yn llawn gwybodaeth ac yn fanwl, maent yn canolbwyntio ar nodau a dyheadau'r bobl, ac maent yn cysylltu'n dda â chofnodion y staff gofal. Mae asesiadau risg manwl a thrylwyr ar waith lle bo angen.

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'n ddiogel ac wedi'i ddarparu yn unol â'r amcanion a ddiffinnir yn y datganiad o ddiben. Mae'r holl ardaloedd cymunol a'r ystafelloedd gwely a welwyd o safon uchel iawn ac yn diwallu anghenion y bobl yn dda. Mae yna ardaloedd helaeth sydd wedi'u cyflwyno'n dda yn yr awyr agored sy'n hygyrch i bobl â phroblemau symudedd. Mae'r bobl yn ddiogel ac edrychwyd ar arferion fel gwiriadau tân a thystysgrifau diogelwch trydan yn ystod yr arolygiad a gwelwyd eu bod yn cydymffurfio'n llawn. Mae gweithdrefnau rhoi meddyginiaeth cadarn ar waith a chynhelir archwiliadau rheolaidd i sicrhau y cynhelir cydymffurfedd da.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag esgeulustod a chamdriniaeth gan fod y gweithwyr gofal yn gwybod yr hyn i gadw llygad amdano a sut i leisio pryderon. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi mewn arferion diogelu ac mae gweithdrefnau clir sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i'w harwain. Darperir gofal yn unol â phrotocolau sy'n ymwneud â galluedd a chyfyngu ar ryddid. Mae cynlluniau rheoli risg manwl yn cefnogi'r bobl i barhau mor annibynnol a diogel â phosibl. Mae polisïau a gweithdrefnau clir a thrylwyr i arwain y staff yn eu rolau gwaith.

Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu darparu â gofal a chymorth sy'n ystyried ac yn bodloni eu dymuniadau, anghenion, risgiau a nodau. Mae gan y darparwr gynllun personol trylwyr a chyfredol ar-lein sy'n nodi'n glir sut y darperir gofal a chymorth. Mae'r cynlluniau personol yn dangos yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a'r ffordd orau o'i gefnogi i wneud cynnydd. Mae asesiadau risg manwl ar waith i gyd-fynd â'r cynlluniau hyn. Ystyrir gallu'r bobl i fod yn rhan o gynllunio gofal a gwelsom fod awdurdodiadau o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar waith lle bo angen. Mae'r cofnodion o'r cymorth a roddir yn fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r cofnodion hefyd yn cysylltu â chanlyniadau penodol a ddogfennir mewn cynlluniau cymorth. Mae gan y bobl weithiwr gofal enwebedig sy'n gyfrifol am ddiweddaru gwybodaeth am gymorth ac am sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gynnwys ac yr ymgynghorir ag ef yn y broses cynllunio gofal. Dywedwyd wrthym fod staffio wedi bod yn anodd ar adegau oherwydd effaith COVID-19. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth i helpu i gyflenwi pan nad oes digon o staff. Cawsom wybod gan y rheolwr bod hyn yn gwella ac mae nifer o staff newydd wedi'u recriwtio'n ddiweddar. Mae hyn wedi cael effaith ar y bobl sy'n cael mynediad at weithgareddau cymunedol, er y gwelsom nifer o'r bobl yn cael eu cefnogi i fynychu sesiynau hydrotherapi yn yr awyr agored. Dywedodd y rheolwr wrthym fod gweithgareddau cymunedol yn cynyddu wrth i lefelau staffio wella a dychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig. Dywedodd unigolyn wrthym, *"Mae'r staff yn wych ac yn gofalu amdanom ni yn dda iawn. Bwyd gwych a staff anhygoel – dim cwynion."* Dywedodd perthynas, *"Mae'r cyfathrebu yn dda iawn a does 'na ddim byd yn ormod o drafferth. Dim problemau na phryderon."*

Mae gan y bobl fynediad at wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill y mae arnynt eu hangen. Gwnaethom ddarllen cofnodion manwl, gan gynnwys apwyntiadau, canlyniadau a chamau gweithredu, sy'n cael eu storio mewn adran o'r ffeil gymorth. Caiff y bobl eu cefnogi i fynychu apwyntiadau gofal iechyd fel y bo angen mewn perthynas â'u hiechyd corfforol a meddyliol. Caiff y cymorth ei gefnogi ymhellach gan argaeledd a darpariaeth ymarferwyr gofal iechyd arbenigol a gyflogir gan y darparwr, gan gynnwys nyrsys iechyd meddwl, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol ac ati. Mae llawer o'r staff yn y gwasanaeth wedi bod yn eu swyddi am sawl blwyddyn ac yn adnabod y bobl yn dda iawn.

Mae systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn ystafell feddyginiaeth neilltuedig. Gwelwyd cofnodion gwiriadau tymheredd dyddiol i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Caiff Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth eu cwblhau'n briodol gyda llofnodion staff gofal i'w gweld. Mae'r staff sy'n cynorthwyo'r bobl â meddyginiaeth wedi'u hyfforddi ac ystyrir eu bod yn gymwys i wneud hynny.

Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau trylwyr ar waith mewn perthynas â rheoli heintiau a rheoli COVID-19. Mae yna amserlenni glanhau sy'n sicrhau bod pob ardal gymunol yn cael ei glanhau'n drylwyr ac yn rheolaidd. Lle bo'n bosibl, caiff y bobl eu cefnogi i lanhau eu hystafell wely a'u cyfleusterau en suite yn rheolaidd. Mae yna weithdrefnau mewn grym i reoli ymwelwyr â'r gwasanaeth. Gofynnwyd i ni ddangos tystiolaeth o brawf llif unffordd negatif wrth gyrraedd. Gwelwyd bod yr holl weithwyr gofal yn gwisgo cyfarpar

diogelu personol yn briodol ac yn ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn profi am COVID-19 yn ôl y gofyn gan y canllawiau cenedlaethol cyfredol. Mae cyflenwadau da o gyfarpar diogelu personol ar gael.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd glân a diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac o ansawdd uchel lle mae risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli'n briodol. Dangoswyd holl rannau mewnol ac allanol y cartref i ni, gan gynnwys detholiad o ystafelloedd gwely. Mae yna ddrysau wedi'u diogelu gan fysellbad i sicrhau bod risgiau'n cael eu lliniaru a bod y bobl yn ddiogel. Roedd yr ystafelloedd gwely a welwyd gyda digon o le, wedi'u haddurno'n dda, ac yn llawn eiddo a diddordebau personol y bobl, ac roeddent i gyd â chyfleusterau en suite. Mae'r gwasanaeth yn diwallu anghenion y bobl yn arbennig o dda. Mae yna nifer o ardaloedd cymunol sy'n rhoi dewis i'r bobl ynglŷn â lle maent yn dymuno cymdeithasu neu gael amser tawel. Mae coridorau llydan ac mae'r holl lety yn hygyrch i'r bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, gan gynnwys ardaloedd yn yr awyr agored. Mae ystafell hyfforddi fawr, bwrpasol a chyfleusterau staff ar y llawr uchaf. Ceir tiroedd mawr hefyd yn yr awyr agored sydd wedi'u cyflwyno i safon eithriadol o uchel ac wedi'u dylunio o amgylch anghenion yr unigolion sy'n byw yno.

Dywedodd y gweithwyr gofal a'r rheolwyr wrthym yr eir i'r afael yn brydlon ag unrhyw faterion cynnal a chadw yr adroddir amdanynt. Mae unigolyn cynnal a chadw penodedig yn gweithio yn y gwasanaeth. Gwelsom fod gwiriadau gwasanaeth rheolaidd yn cael eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys trydan, dŵr, diogelwch nwy, a phrofion dyfeisiau cludadwy trydanol. Gwiriwyd tystysgrifau diogelwch a chafwyd eu bod yn gyfredol. Mae gweithdrefnau a gwiriadau diogelwch tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u dogfennu. Mae gan bawb gynllun personol ar gyfer gadael mewn argyfwng cyfredol ar waith. Roedd yr holl gynhyrchion a welsom y mae'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn berthnasol iddynt wedi'u storio'n gywir ac yn ddiogel. Mae diweddariadau gwasanaeth wedi'u cwblhau'n ddiweddar, gan gynnwys diweddaru un o'r ystafelloedd meddyginiaeth, lloriau newydd, ac ailaddurno ledled y cartref.

Gwelsom gegin lân oedd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Mae gan y gwasanaeth sgôr hylendid bwyd gyfredol o 5 (da iawn), sef y sgôr uchaf sydd ar gael gan Iechyd yr Amgylchedd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd a ddarperir a hefyd eu bod yn cael dewis beth i'w fwyta. Gwnaethom siarad â chogydd a ddangosodd wybodaeth dda am baratoi bwyd mewn perthynas â'r bobl ag anawsterau llyncu a'r rhai sydd angen deiet arbenigol. Gwelsom hefyd ardal golchi dillad fawr wedi'i dylunio'n dda gyda systemau i wahanu dillad budr a glân er mwyn rheoli heintiau'n dda.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r unigolyn cyfrifol, rheolwr y gwasanaeth a'r dirprwy reolwr wedi datblygu prosesau clir a chadarn ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwyr a'r unigolyn cyfrifol yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Dywedodd gweithiwr gofal, *"Mae'r gefnogaeth yn dda iawn – mae'r cydweithwyr yn wych, mae'r rheolwyr yn dda iawn."* Cawsom wybod gan y gweithwyr gofal a'r rheolwyr bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Gwelsom gofnodion o ymweliadau, gan gynnwys trafodaethau â'r bobl a'r rheolwyr. Gwelsom hefyd yr adolygiad ansawdd gofal diweddaraf, sy'n cynnwys trosolwg manwl o'r gwasanaeth, gan gynnwys adborth gan y bobl a'r gweithwyr gofal. Mae polisïau a gweithdrefnau cadarn clir i'r staff eu dilyn. Edrychwyd ar sampl o bolisïau, gan gynnwys rheoli heintiau, cwynion, diogelu a meddyginiaeth. Mae'r rhain bron i gyd wedi'u hadolygu'n ddiweddar. Mae'r datganiad o ddiben wedi'i adolygu'n ddiweddar ac mae'n disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm dynodedig o nyrsys a gweithwyr gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel ac sy'n cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Ategir hyn gan gyfraniad gweithwyr proffesiynol eraill, sydd hefyd yn cael eu cyflogi gan y darparwr. Mae llawer o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth am flynyddoedd ac maent yn gyfarwydd iawn ag anghenion y bobl sy'n cael eu cynorthwyo. Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél tri aelod o staff a gweld bod gwiriadau recriwtio a chyn cyflogi priodol ar waith. Mae geirdaon a gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y ffeil. Mae'r matrics hyfforddi a welwyd yn dangos bod bron holl ofynion hyfforddiant gorfodol y darparwr yn gyfredol. Mae hyn yn cynnwys rheoli heintiau, diogelu, iechyd a diogelwch, ac ymwybyddiaeth o dân. Mae hyfforddiant arbenigol hefyd yn cynnwys: niwed i'r ymennydd, diabetes, anabledd dysgu a chymorth ymddygiadol. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y gwasanaeth ar hyn o bryd yn paratoi i ail-ddilysu ei achrediad gyda Chymdeithas Clefyd Huntington. Mae hon yn rhaglen sicrhau ansawdd sy'n hyrwyddo safon eithriadol o uchel o ofal a chymorth i bobl â chlefyd Huntington. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mynychu hyfforddiant diogelu ac yn deall eu cyfrifoldeb mewn perthynas â hyn. Mae yna bolisïau a gweithdrefnau manwl a thrylwyr ar waith i lywio'r gweithwyr gofal. Gwelsom fod y staff yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol reolaidd ac arfarniad blynyddol. Mae gweithwyr gofal newydd yn cynnal proses sefydlu drylwyr sy'n cyd-fynd â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (Gofal Cymdeithasol Cymru). Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â hwy'n canmol yr hyfforddiant a'r cymorth maent yn eu derbyn. Roedd sylwadau gan y gweithwyr gofal yn cynnwys y canlynol: *"hyfforddiant da a chyfredol".*

Hefyd: *“Mae Yr Ysgol yn lle gwych i weithio ac rwy’n teimlo’n freintiedig iawn fy mod wedi dod o hyd i swydd rwy’n ei charu.”*

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 31/05/2022